# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 1

CYFLWYNIAD

### 1 Trosolwg

(1) Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau'r Ddeddf.

(2) Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon—

(a) yn egluro ystyr "datblygu cynaliadwy" ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy (adrannau 2 a );

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff bennu amcanion llesiant sydd i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny (adran );

(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff wneud y pethau hynny yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (adran );

(d) yn egluro beth yw'r nodau llesiant a beth yw ystyr gwneud pethau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (adrannau 4 a 5);

(e) yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi dangosyddion sy'n mesur y cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant (adran 10) ac adroddiadau ar dueddiadau tebygol y dyfodol yn llesiant Cymru (adran 11);

(f) yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff yn adrodd yn flynyddol ar y cynnydd tuag at gyflawni yr amcanion llesiant (adrannau 12 a 13 ac Atodlen 1);

(g) yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal ymchwiliadau ynghylch i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn gosod amcanion ac yn cymryd camau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (adran 15).

(3) Mae Rhan 3 o'r Ddeddf hon—

**Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/07/2022.
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 1. (See end of Document for details)

(a) yn sefydlu swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (adran 17 ac Atodlen 2);
(b) yn darparu y bydd y Comisiynydd yn hyrwyddo anghenion cenedlaethau'r dyfodol drwy fonitro i ba raddau y mae y cyrff cyhoeddus yn gosod eu hamcanion llesiant, ac yn ceisio eu cyflawni, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn adrodd ar hynny (adran 18);
(c) yn darparu y bydd y Comisiynydd yn cynnal adolygiadau o gyrff cyhoeddus (adran 20);
(d) yn sefydlu panel o gynghorwyr i'r Comisiynydd (adrannau 26 i 28).

(4) Mae Rhan 4 o'r Ddeddf hon—

(a) yn sefydlu bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru ac yn pennu pwy arall y caiff bwrdd gydweithio ag ef (Pennod 1);
(b) yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau wella llesiant eu hardaloedd drwy gyfrannu at y nodau llesiant ac maent i wneud hynny drwy asesu llesiant yn eu hardaloedd, gosod amcanion lleol sy'n cael eu cynllunio i sicrhau bod y bwrdd yn cyfrannu i'r eithaf (o fewn ei ardal) at gyrraedd y nodau llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny (Pennod 2, adran 36);
(c) yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau wneud y pethau hynny yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (Pennod 2, adran 36);
(d) yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gyhoeddi cynlluniau llesiant lleol sy'n nodi eu hamcanion lleol a sut y maent yn bwriadu cymryd camau i'w cyflawni (Pennod 2, adran 39);
(e) yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch sut y mae cynlluniau llesiant lleol yn gymwys i gynghorau cymuned a sut, drwy hynny, y gall cyngor cymuned gyfrannu at weithgarwch y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn ei ardal (Pennod 2, adran 40);
(f) yn gwneud darpariaeth i fyrddau uno neu gydlafurio fel arall **[**[F1], a daduno**]** (Pennod 3).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 1(4)(f) wedi eu mewnosod (20.3.2021) gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), a. 175(3)(q), **Atod. 14 para. 1(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**I2** A. 1 mewn grym ar 16.10.2015 gan O.S. 2015/1785, **ergl. 2(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/07/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 1.